**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 20 Rhagfyr 2022, drwy Zoom am 7:00 Y.H.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Berwyn Parry Jones, Richard Robinson, Philip Roberts, Gwynedd Williams, Hefin Jones, Emyr Jones, Ann Lawton**.**

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Beca Brown

**Clerc:** Meirion Jones

**Aelodau o'r Cyhoedd:** Neb

**1062. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau. Mynegwyd cydymdeimlad a'r Cynghorydd Alan Pritchard yn dilyn ei brofedigaeth ddiweddar ac fe ddymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Beca Brown

Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones am ei waith i sicrhau trefniadau ar gyfer y goeden Nadolig yn yr ysgol

**1063 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

**1064. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w codi fel yn briodol

Yn eitem 1074 (a) Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd ac Avril Jones fel buddiant personol ac rhagfarnllyd.

Yn eitem 1074 (b) Y Cynghorydd Ann Lawton – buddiant personol

**1065. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 15 Tachwedd 2022**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**1066. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Eitem 1052 – Cyfarfod 15 o Dachwedd.

Adroddwyd fod yr ail fainc wedi ei chwblhau a'r gobaith yw ei gosod yn y flwyddyn newydd. Bydd y cyngor yn estyn gwahoddiad i'r teuluoedd i'w dadorchuddio.

Eitem 1058 – Cyfarfod 15 o Dachwedd.

Adroddwyd fod problem yn parhau gyda cheir wedi parcio ger cae chwarae Allt Goch, Cwm y Glo a phenderfynwyd mynd yn ôl at Gyngor Gwynedd i ddilyn hyn i fyny.

Adroddwyd nad oedd cyfle wedi bod i gael tystiolaeth am y broblem o geir yn parcio ger Pwll Moelyn

**1067. Cyfranogiad y Cyhoedd (os yn bresennol)**

Neb

**1068. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Gwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**1069. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd**

**1070. I dderbyn diweddariad ar y sefyllfa grit (Cyng. Berwyn Parry Jones) ac i ystyried pa gamau dylai'r cyngor cymuned ymgymryd yn y dyfodol**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, fod Cyngor Gwynedd bellach yn llenwi'r bocsys melyn sydd o gwmpas yr ardal gyda graen. Adroddwyd fod y cyngor cymuned gyda bagiau o graen ar gyfer trigolion yn ogystal ar gyfer achosion brys fyddai yn effeithio ar y gymuned pe nad oes graen o fewn cyrraedd yn y bocsys melyn.

Byddai yn fanteisiol i edrych ar leoliadau presennol y bocsys melyn ynghyd a'i gyflwr

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a pharhau a'r drefn fel ein bod yn gallu cael graean yn y bocsys melyn ynghyd a darparu bagiau pan fo'r galw yn codi.

**1071. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorwyr Emyr Jones (isod) a'r Cynghorydd Hefin Jones am eu cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Ddŵr Cymru parthed sefyllfa carffosiaeth Llanrug.**

Nodyn am rwydwaith carffosiaeth Llanrug. Mae Hefin am wneud nodyn am ein hymweliad a'r gwaith ei hun. Efallai fydd nag ychydig o ail adrodd.

Y peth cyntaf i'w nodi yw bod y rhwydwaith, fel rhan fwyaf yn yr ardal, yn "combined". Mae hyn yn golygu fod dŵr glaw yn ogystal â'r dŵr budr yn mynd i mewn i'r rhwydwaith. Felly nid yw maint sydd yn cael ei arllwys o'r gwaith i'r Seiont yn gyson.

Mae'r gwaith yn trin i fyny at 17.6 litr/eiliad o carffosiaeth. Dyma'r maint mwyaf sy'n mynd allan i'r Seiont ar ôl ei drin i'r safon, neu yn well na'r safon, sydd ar ganiatâd DC.

Mewn tywydd gwlyb mae'r llif sydd yn uwch na 17.6 l/e yn mynd i danc storm yn y gwaith, ac ar ôl setlo am gyfnod yn y tanc, mae'n gorlifo i'r Seiont. Ddylai hyn ddim achosi pryder amgylcheddol achos fydd fwy o ddŵr yn yr afon hefyd.

Os yw'r tywydd yn wlypach eto mae'r rhwydwaith yn gorlifo drwy "Combined Sewer Overflow", CSO, fel sydd yn yr orsaf bwmpio dros y ffordd i Benbont. Yn y fan yma mae llif dros 26.5 l/e yn gorlifo i'r Seiont.

Mi oeddwn eisiau gwybod gan DC be ydi cyflwr y rhwydwaith ac os byddai yn effeithio ar unrhyw ddatblygiadau newydd yn yr ardal. Yn ôl DC does ddim diffygion ar y funud. Mi roedd 'na rhai blynyddoedd yn ôl yn Glanffynnon ac ym mhont Rhythallt. Mi gafodd waith i ddatrys y rheini eu cwblhau yn y flwyddyn 2018-19.

Yn nalgylch y Seiont mae yna 9 gwaith trin carffosiaeth - 2 yn Dinorwig, Gallt y Foel, Nant Peris, Penisarwaun, Deiniol / Brynrefail, Llanberis, Llanrug a Caernarfon 26 gorsafoedd pwmpio a 26 CSO

Yn ôl gwefan DC maent wedi dechrau prosiect i ystyried sut fydd eu hasedau yn ymdopi gyda mwy o law trwm sydd yn debygol yn ddyfodol oherwydd newid hinsawdd. Un o'r pethau byddent yn ystyried yw tynnu dwr glan allan o'r rhwydwaith dwr budr. Bydd hyn dros y cyfnod 2030-50. Fydd o ddim yn hawdd a fydd yn gostus. Maent yn bwriadu ymgynghori efo CC, Cynghorau ayyb. Oes rywun yn ymwybodol o hwn? Ydi'r broses di cychwyn? Fyddai'n bwysig i'r Cyngor Cymuned gael mewnbwn i hwn yn fy marn I.

Adroddwyd ymhellach yn dilyn y cyfarfod ar 17 o Dachwedd 2022, gyda swyddogion o Dwr Cymru, cadarnhawyd fod Dwr Cymru yn cydnabod fod yna broblemau gyda carffosiaeth a'u bod yn gobeithio gwneud y gwaith y flwyddyn nesaf

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolchwyd i'r Cynghorwyr Emyr Jones a Hefin Jones am fynychu cyfarfod a swyddogion Dwr Cymru

**1072.** Fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi ymgyrch 'Hanes Cymru a'r Cwricwlwm i Gymru' ac yn ysgrifennu ar Mr Jeremy Miles AS, yn tynnu sylw fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cymeradwyo hyn. (Cynghorydd Meirwen Lloyd)

**Penderfynwyd:** Fod Cyngor Cymuned Llanrug y cefnogi'r ymgyrch ac yn ysgrifennu at Mr Jeremy Miles AS yn cymeradwyo hyn.

**1073.** I dderbyn adroddiad am y 3ydd Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd. (Cynghorydd Hefin Jones)

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones ei fod wedi mynychu'r 3ydd cyfarfod o'r uchod ble cafwyd sgwrs am gynllun Ynni Padarn Peris. Nodwyd

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1074. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**

https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search

a) **Rhif y Cais:** C22/1024/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Cynnig:** Cais cynllunio llawn ar gyfer ymestyn maes carafanau ar gyfer ail-leoli 9 o Leiniau Pebyll fel 9 oLainiau Uned Deithiol, ac amnewid 21 o Leiniau Pebyll gyda 21 o Leiniau Uned Deithiol ar y Parc presennol (dim cynnydd mewn niferoedd), lleoli Cyfleuster golchi cytiau bugail a thirlunio.
**Ymgeisydd:** (Tyn y Coed Caravan Park)
**Asiant:** Jeremy Lambe (Lambe Planning & Design Ltd)
**Lleoliad:** Maes Carafanau Tyn Y Coed, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AQ
**Cyfeirnod Grid:** 252415.08, 363107.32
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C22/1033/23/CC
**Math o Gais:** Gwaith i goed wedi'u hamddiffyn
**Cynnig:** Cynllun rheolaeth coed o fewn Gorchymyn Diogelu Coed rhif 54.
**Ymgeisydd:** Park Holidays (Park Holidays UK Ltd)
**Asiant:** Phil Brophy (Barrell Treecare)
**Lleoliad:** Bryn Teg Caravan Park, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd,LL55 4RF
**Cyfeirnod Grid:** 254406.15, 362237.86
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:**Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad ond gyda'r amodau canlynol

i) Dim ond coed sydd â hawl i'w torri yn unol â Chyngor Gwynedd i'w torri a bod coed yn cael eu hail plannu.
ii) Fod y cyngor yn cefnogi sylwadau Swyddog bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd
iii) Mae'n hanfodol fod yr ardal yn cael ei warchod ar gyfer bywyd gwyllt e.e. tylluanod, ystlumod ac adar eraill
iv) Mae'r cyngor yn pryderu am dorri coed yn gyffredinol ac angen plannu coed i wella ac amddiffyn yr amgylchedd

Daeth y cyfarfod i ben am 21:15

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: